# Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) (2022-2037)

# Papur Cefndir:
# Nodyn Canllaw Asesu Hyfywedd Ariannol

# Mai 2023

# Crynodeb Gweithredol

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*
*This document is available in English*

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11, Chwefror 2021 (PCC11) yn nodi'n glir y dylid mynegi cyflawnadwyedd safleoedd, gan gynnwys hyfywedd ariannol unrhyw gynnig, ar y cam Safleoedd Ymgeisiol yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyhoeddir y Nodyn Canllaw Asesu Hyfywedd Ariannol er mwyn i'r rheiny a allai gyflwyno safle wybod beth yw gofynion y Cyngor o ran Asesu Hyfywedd Ariannol yn rhan o'r broses o Asesu Safleoedd Ymgeisiol. Caiff ei gyhoeddi ymlaen llaw, cyn Galwad am Safleoedd Ymgeisiol y CDLlN er mwyn sicrhau bod cymaint o amser â phosibl gan ymgeiswyr i'w ystyried. Os bydd safle'n methu â darparu tystiolaeth o'r fath, neu os yw'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r safle'n hyfyw, yna ni ystyrir dyrannu'r safle yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Dyma ddogfennau defnyddiol ychwanegol sydd gan y Cyngor:

- Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol (Mai 2023)
- Galwad am Safleoedd Ymgeisiol: Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyflwyno Safle (Mai 2023)
- Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig (mabwysiadwyd Chwefror 2023).

## 2. Trosolwg o'r Broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol

2.1 Yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd y Cyngor yn cynnal Galwad am Safleoedd Ymgeisiol. Bydd hyn yn cynnwys cyfnod o wyth wythnos pan fydd gwahoddiad i'r rheiny sydd â diddordeb mewn cyflwyno tir i'w ystyried ar gyfer y CDLlN, i gyflwyno safleoedd, a hynny naill ai ar gyfer eu datblygu, eu hailddatblygu neu eu gwarchod rhag datblygiad. Gellir cyflwyno safleoedd at amrywiaeth eang o ddibenion defnydd tir gan gynnwys tai, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol, twristiaeth, seilwaith gwyrdd, gwastraff, iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, darpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, manwerthu, hamdden, ynni adnewyddadwy, bioamrywiaeth, seilwaith trafnidiaeth a mwynau.

2.2 Cynhelir Ail Alwad am Safleoedd a Galwad am Dystiolaeth Ategol Ychwanegol, ar y cyd â'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir.

2.3 Bydd Nodyn Canllaw Cyflwyno Safleoedd ar gyfer yr Alwad i Gyflwyno Safleoedd yn nodi'r wybodaeth ategol y bydd gofyn ei chyflwyno. Rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys asesiad hyfywedd Cam 1. Os nad oes gwybodaeth ddigonol i ddangos cyflawnadwyedd y safle (gan gynnwys hyfywedd ariannol) yna mae hynny'n rheswm dilys dros wrthod safle ar Gam 1 yn y broses asesu.

2.4 Bydd Ail Alwad am Safleoedd yn derbyn safleoedd newydd ac yn gyfle i'r rheiny sydd eisoes wedi cynnig safleoedd i gyflwyno tystiolaeth ategol ychwanegol er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion sydd heb eu hateb. Bydd gofyn cynnal asesiad hyfywedd Cam 2 ac arolygon ecolegol ar yr adeg hon hefyd. Ni ddisgwylir y bydd y Cyngor yn derbyn unrhyw Safleoedd Ymgeisiol newydd wedi i'r Ail Alwad am Safleoedd gau.

## 3. Cam 1 Asesu Hyfywedd Ariannol

3.1 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020) yn rhoi arweiniad ynghylch mynegi hyfywedd ariannol safleoedd. Rhaid cefnogi safleoedd allweddol a dyraniadau strategol sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth y cynllun gydag arfarniad hyfywedd manwl sy'n benodol i'r safle. I gyd-fynd â chynnig cychwynnol y safle yn ystod y cam Galw am Safleoedd, mae'r Cyngor yn gofyn am Ddatganiad Hyfywedd Ariannol fel a ganlyn:

- Cadarnhad bod potensial i ddatblygu'r safle at y defnydd a gynigir. Dylai'r safle fod yn gyffredinol atyniadol i'r farchnad ddatblygu yn y lleoliad a gynigir;
- Cadarnhad y gallai'r safle ddarparu'r lefelau tai fforddiadwy eang, gofynion polisïau eraill / Adran 106 a chostau seilwaith a gyflwynir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; a
- Phan fo diffyg ariannol sy'n atal y datblygiad rhag cael ei gyflwyno, bod mecanweithiau cyllido yn eu lle neu yn gallu cael eu sicrhau er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol y safle.

3.2 Gellir cyflwyno'r Datganiad ar unrhyw ffurf ond rhaid iddo gadarnhau'n benodol fod y sawl sy'n cynnig y safle yn fodlon y gallai datblygwr sicrhau elw derbyniol wedi ystyried rhwymedigaethau cynllunio tebygol ac amodau'r farchnad ar y pryd neu'r hyn a ragwelir. Mae'r Datganiad hwn yn orfodol.

## 4. Cam 2 Asesu Hyfywedd Ariannol: Model Hyfywedd Datblygiad

4.1 Cynhelir Ail Alwad am Safleoedd a Galwad am Dystiolaeth Ategol Ychwanegol, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir. Ar yr adeg hon, bydd gofyn cynnal Asesiad Hyfywedd Ariannol Cam 2 ar gyfer y safleoedd hynny sy'n symud ymlaen i Gam 2 yn y broses o Asesu Safleoedd Ymgeisiol. Bydd gofyn i Safleoedd Ymgeisiol newydd a gyflwynwyd yn rhan o'r Ail Alwad am Safleoedd i gyflwyno Asesiad Hyfywedd Ariannol Cam 2 ar y cam hwn hefyd.

4.2 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020) yn rhoi cyngor manwl am brofi hyfywedd ym Mhennod 5 'Profion Hyfywedd ar gyfer Cynllun Datblygu' gan gynnwys arweiniad ynghylch tybiaethau craidd, cydrannau hyfywedd, modelu a mewnbynnau ar gyfer arfarniadau lefel uchel ac arfarniadau sy'n benodol i safleoedd.

4.3 Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau eraill ar draws y rhanbarth, ochr yn ochr â'r cwmni ymgynghori ar Gynllunio a Datblygu Trefol, Burrows-Hutchinson Ltd, er mwyn sefydlu offeryn asesu Model Hyfywedd Datblygiad. Crëwyd y Model Hyfywedd Datblygiad fel model cynhwysfawr, hawdd ei ddefnyddio, y gall hyrwyddwyr safleoedd a'r rheiny sy'n dod i benderfyniadau, ei ddefnyddio i asesu hyfywedd ariannol cynnig i ddatblygu. Rhaid i hyrwyddwyr safleoedd gyflwyno Asesiad Hyfywedd Ariannol gan

ddefnyddio'r Model Hyfywedd Datblygiad yn rhan o broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol Cam 2. Dyma'r ffioedd ar gyfer darparu copi o'r Model Hyfywedd Datblygiad:

- Safleoedd ag 1-9 uned - £195 a TAW
- Safleoedd â 10-50 uned - £345 a TAW
- Safleoedd â 51-100 uned - £495 a TAW
- Safleoedd â mwy na 100 uned – rhaid cytuno ar y gost gyda'r Cyngor gan ddibynnu ar faint y cynnig a pha mor gymhleth ydyw

4.4 I gael copi o'r Model Hyfywedd Datblygiad ar gyfer safle penodol, ynghyd â chanllawiau i ddefnyddwyr a fideos, neu i drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r Model Hyfywedd Datblygiad, cysylltwch â ni trwy anfon neges e-bost i ldp@torfaen.gov.uk.

## 5. Trosolwg o'r Gofynion Cyffredin

5.1 Mae'n debygol y bydd yna rwymedigaethau cynllunio lle byddai effaith andwyol ar y safle neu'r gymuned leol yn ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig a lle bo modd lliniaru hynny. Ceir crynodeb o'r rhwymedigaethau mwyaf cyffredin yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Gofynion Cyffredin**

| Math o Rwymedigaeth | Trothwy datblygiad preswyl | Trothwy datblygu masnachol | Rhwymedigaeth |
|---|---|---|---|
| Tai Fforddiadwy | 3 annedd neu 0.1 hectar *(10 annedd neu 0.33 hectar)* [1] | Amh. | Penodol i'r Safle - Darpariaeth ar y safle ar gyfer RSL a / neu swm cymudo: -<br>▪ Hyd at 5% yng Ngogledd Torfaen [2]<br>▪ hyd at 25% ym Mhont-y-pŵl<br>▪ hyd at 20% yng Ngorllewin a Gogledd Cwmbrân<br>▪ hyd at 30% yn Ne a Dwyrain Cwmbrân |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | Dim Trothwy | Dim Trothwy | Penodol i'r Safle - Gwaith Seilwaith Priffyrdd a / neu Waith Trafnidiaeth Gynaliadwy yn ôl angen |
| Cyfleusterau Addysgol | 10 annedd | Amh. | Penodol i'r Safle - Darpariaeth ar gyfer capasiti ychwanegol yn ôl yr angen |
| Cyfleusterau Cymunedol ac Adfywio | 25 annedd | 1 ha neu 1,000 $m^2$ | Penodol i'r Safle - Darpariaeth ar gyfer capasiti ychwanegol yn ôl yr angen |
| Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Gwydnwch Ecolegol | Dim Trothwy | Dim Trothwy | Penodol i'r Safle - Lliniaru a / neu iawndal yn ôl effaith |
| Hamdden, Gofod Agored a Rhandiroedd | 3 annedd neu 0.1 hectar neu golli cyfleuster o'r fath | Colli cyfleuster o'r fath | Penodol i'r Safle - Darparu capasiti ychwanegol a / neu ddarpariaeth ddigolledu yn ôl yr angen (FiT wedi'i fabwysiadu, Cyngor, CNC a Safonau Rhandiroedd a / neu Bolisi CDLl) |

**Nodiadau**:

[1] Yn dilyn adolygiad hyfywedd (fel rhan o AMR CDLl Torfaen 2015 a adroddwyd i'r Cyngor ar 15 Rhagfyr 2015 ), mae'r trothwy ar gyfer darpariaeth tai fforddiadwy yn Ardaloedd Is-farchnad Tai (AIfT) Gogledd Torfaen (Blaenafon ac Abersychan), Pont-y-pŵl a Gogledd a Gorllewin Cwmbrân (AIfT) wedi ei godi i 10 annedd (neu 0.33 ha).

[2] Penderfynodd y Cyngor hefyd (ar 15 Rhagfyr 2015) i leihau faint o dai fforddiadwy a geisir gydag AIfT Gogledd Torfaen o 'hyd at 10%' i 'hyd at 5%'.

## Tai Fforddiadwy

5.2 Yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Torfaen, y Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio Diwygiedig cysylltiedig ac Asesiad o Farchnad Dai Leol diweddaraf Torfaen, bydd y Cyngor yn gofyn am 75% o Dai Rhent Cymdeithasol a 25% o Dai Fforddiadwy Canolradd (Perchentyaeth Cost Isel) ar safleoedd preswyl (gweler Tabl 2 isod). Bydd datblygwr yn cael y 'Dariff Uned Rhent Cymdeithasol' berthnasol ar sail Model Hyfywedd Safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer yr uned Rhent Cymdeithasol (gweler Tabl 3 isod); a 50% o'r Gwerth Marchnadol ar gyfer yr unedau Canolradd.

**Tabl 2: Gofynion Tai Fforddiadwy ar draws Torfaen**

| Ardal Is-farchnad Tai | Tai Rhent Cymdeithasol | Tai Canolradd | Cyfanswm y Gofyniad o ran Tai Fforddiadwy | Trothwy Anheddau (Arwynebedd) |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Torfaen (NP4 7 ac NP4 9) | 4% | 1% | 5% | 10 (0.33ha) |
| Pont-y-pŵl (NP4 0, NP4 5, NP4 6 ac NP4 8) | 19% | 6% | 25% | 10 (0.33ha) |
| Gogledd a Gorllewin Cwmbrân (NP44 1, NP44 4 ac NP44 5) | 15% | 5% | 20% | 10 (0.33ha) |
| De a Dwyrain Cwmbrân (NP18 1, NP44 2, NP44 3, NP44 6, NP44 7 ac NP44 8) | 23% | 7% | 30% | 3 (0.1ha) |

**Tabl 3: A106 'Tariff Unedau Rhent Cymdeithasol' (Ebrill 2023)**

| Tai | | |
|---|---|---|
| Math | Maint $m^2$ | **Tariff** |
| 7P 4B H | 114 | £92,224 |
| 6P 4B H | 110 | £91,709 |
| 5P 3B H | 94 | £78,542 |
| 4P 3B H | 88 | £77,935 |
| 4P 2B H | 83 | £73,213 |

| Fflatiau | | |
|---|---|---|
| Math | Maint $m^2$ | **Tariff** |
| 3P 2B F | 65 | £50,330 |
| 2P 1B F | 53 | £43,875 |

| Byngalo | | |
|---|---|---|
| Math | Maint $m^2$ | **Tariff** |
| 3P 2B B | 58 | £73,588 |

5.3 Bydd gofyn sicrhau cyfuniad o anheddau fforddiadwy o fathau gwahanol a meintiau gwahanol ar bob safle, er mwyn creu cymunedau cynaliadwy a chytbwys. Mae angen i bob annedd fforddiadwy fodloni Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru: Mannau a Chartrefi Prydferth (WDQR 2021), Gorffennaf 2021 (yn enwedig y tri gofyniad manwl (1. Dylai cartrefi fod o ansawdd uchel, yn arloesol ac yn gynaliadwy; 2. Dylai cartrefi fod yn hyblyg, ymateb i'r newidiadau i anghenion y meddianwyr, diwallu anghenion cyfnewidiol amrywiaeth o aelwydydd a fydd yn meddiannu'r adeilad dros ei oes, a bod o faint digonol.; a 3. Dylai cartrefi fod yn saff ac yn ddiogel) a safonau lle Atodiadau A a B) neu unrhyw Safon ddilynol gan Lywodraeth Cymru.

## Priffyrdd a Thrafnidiaeth

5.4 Mae'r Cyngor yn mynd ati i roi sylw i'r galw cynyddol am drafnidiaeth trwy sicrhau bod pob datblygiad newydd yn gofyn am gyn lleied â phosibl o fynediad â char ac yn uchafu'r cyfleoedd i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy, yn enwedig cerdded, beicio a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Fel y cyfryw, bydd rhwymedigaethau yn pwysleisio pwysigrwydd uchafu cyfleoedd i deithio'n fwy ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar droed neu ar feic. Byddant

hefyd yn sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn gallu derbyn y symudiadau traffig-ar-y-ffordd sy'n gysylltiedig â datblygiad, a hynny mewn ffordd ddiogel ac effeithlon. Gellid cyflwyno rhwymedigaeth cynllunio yn ymwneud â phriffyrdd a thrafnidiaeth ar gyfer datblygiad o unrhyw fath ac unrhyw faint, yn ôl nodweddion penodol y safle arfaethedig a'r effaith bosibl gan y datblygiad arfaethedig. Ystyrir safleoedd fesul achos. Nid oes trothwy na sbardun penodol.

5.6 Disgwylir i ddatblygwyr ddarparu mannau parcio a mynediad, gan gynnwys unrhyw waith angenrheidiol i'r briffordd er mwyn creu mynediad i'r safle a chysylltiad at unrhyw lwybr cerdded sydd gerllaw. Bydd gofyn i'r datblygiad gynnwys mynediad i gerddwyr a beicwyr hefyd, yn ychwanegol at unrhyw brif fynedfa, lle byddai'r rhain yn cynnig llwybr mwy uniongyrchol a chyfleus i'r datblygiad ac oddi yno, i feicwyr a cherddwyr. Bydd hyn yn cynnwys darparu cysylltiadau at lwybrau cerdded a beicio sydd eisoes yn bodoli gan gynnwys y Llwybr Beicio Cenedlaethol, a sicrhau bod mynediad at arosfannau trafnidiaeth lleol cyfagos a chyfleusterau lleol eraill mor gyfleus â phosibl. Lle y bo'n bosibl, ceisir rhwymedigaethau ynghylch mesurau penodol yn yr ardal o amgylch y safle a allai fod yn angenrheidiol i wella mynediad at gyfleusterau lleol trwy ddulliau cynaliadwy.

5.7 Dylai rhwymedigaethau a gynigir ddangos bod unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn lliniaru effaith y datblygiad ac yn darparu digon o gapasiti o ran cludiant / gwelliannau i'r rhwydwaith i dderbyn y symudiadau sy'n cael eu creu yn sgil y datblygiad, yn unol â Hierarchiaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy PCC11.

## Cyfleusterau Addysg

5.8 Bydd angen rhwymedigaeth cynllunio mewn perthynas â chyfleusterau addysgol lle mae datblygiad arfaethedig yn debygol o arwain at niferoedd disgyblion ychwanegol sy'n fwy na'r hyn y gall ysgolion lleol y dalgylch ddarparu ar eu cyfer. Mae'r canllaw polisi hwn yn berthnasol i unedau preswyl yn unig ac mae'r eithriadau yn cynnwys fflatiau stiwdio ac anheddau ag un ystafell wely, tai gwarchod / tai'r henoed, cartrefi gofal, cartrefi gorffwys a chartrefi nyrsio, hostelau a llety i fyfyrwyr, oherwydd nad yw datblygiadau o'r fath yn debygol o gartrefu plant oed ysgol. Felly ceisir cyfraniadau lle:-

a) bydd y disgyblion a allai godi o'r datblygiad yn achosi gormod o gapasiti i ysgolion lleol yn y dalgylch; neu

b) mae capasiti ychwanegol presennol yn bodoli er mwyn darparu ar gyfer rhai neu'r holl ddisgyblion a allai godi o'r datblygiad, ond mae angen adnewyddu i wneud y lleoedd hynny'n 'addas i'w defnyddio'.

5.9 Mae methodoleg Canllawiau Cynllunio Atodol cyfredol Adran 106 ar gyfer cyfrifo Taliad Cyfleusterau Addysg yn seiliedig ar gynnyrch tebygol y datblygiad wedi'i luosi gyda'r costau fesul disgybl ar gyfer darparu'r cyfleusterau ychwanegol.

## Cyfleusterau Cymunedol ac Adfywio

5.10 Bydd angen rhwymedigaethau cynllunio mewn perthynas â chyfleusterau cymunedol pan fydd datblygiad arfaethedig yn debygol o arwain at gynhyrchu aelwydydd ychwanegol neu rym gwaith gan y byddai'r boblogaeth ychwanegol debygol yn fwy na chapasiti presennol neu gynlluniedig cyfleusterau lleol. Gallai cyfleusterau o'r fath gynnwys canolfannau cymunedol / neuaddau a mannau cyfarfod (gyda'r safon leiaf o $0.75m^2$ yr annedd (a chost Chwarter 2 2023 o £2,145$m^2$)), cyfleusterau dysgu cymunedol, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a meddygfeydd teulu.

5.11 Fel canllaw cyffredinol, gallai fod rhwymedigaethau ar ddatblygiad preswyl sy'n cynnwys cynnydd net o 25 annedd neu fwy neu ddatblygiad masnachol sydd â chynnydd net o 1,000 $m^2$ o ofod llawr neu arwynebedd safle sy'n fwy nag 1 ha. Wrth asesu i weld pa gyfleusterau cymunedol y gallai datblygiad effeithio arnynt, ystyrir dalgylchoedd cyfleusterau lleol mewn perthynas â safle'r datblygiad arfaethedig.

## Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Gwydnwch Ecolegol

5.12 Gellid gofyn am gyfraniad mewn perthynas ag ecoleg a bioamrywiaeth, gan ddibynnu ar nodweddion penodol y safle arfaethedig ac effaith bosibl y datblygiad arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y safle ac ardaloedd cysylltiedig (e.e. coridorau dŵr, coridorau gwyrdd, mannau porfwyd). Disgwylir i'r sawl sy'n cynnig y safle i gynnal yr arolygon ecolegol gofynnol er mwyn pennu i ba raddau y mae rhywogaethau / cynefinoedd yn bresennol ar y safle. Bydd y gwaith arolygu hwn yn gymorth i bennu pa fesurau lliniaru sy'n angenrheidiol. Yr egwyddor sy'n trechu mewn perthynas ag ecoleg a bioamrywiaeth yw sicrhau budd net yn unol â'r ddyletswydd Adran 6 a gyflwynir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## Cyfleusterau Hamdden, Mannau Agored a Rhandiroedd

5.13 Bydd y Cyngor yn ceisio rhwymedigaeth i fynd i'r afael ag unrhyw effaith andwyol ar safon darparu cyfleusterau mannau agored a hamdden sy'n ymwneud â safle datblygu. Gall y rhwymedigaeth gynnwys darparu cyfleusterau'n uniongyrchol, darpariaeth oddi ar y safle ar dir a reolir gan y datblygwr a / neu gyfraniad ariannol (Taliad Mannau Agored a Hamdden) yn lle darpariaeth uniongyrchol. Dylid rheoli'r cyfleusterau a ddarperir naill ai drwy sefydlu cwmni rheoli priodol; neu drwy drosglwyddo'r tir i'r Cyngor a thalu swm cymudo sy'n cyfateb i'r costau rheoli am 20 mlynedd.

5.14 Pennir safonau'r ddarpariaeth gan safonau meincnod Fields in Trust (FiT) (2015), sef 2.4 hectar / 1000 o'r boblogaeth; y Safon Gofod Gwyrdd Naturiol a ddyfeisiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) (2006); mabwysiadodd y Cyngor CCA 'Datblygu a'i Ymgorffori o fewn y Dirwedd: Canllaw i Ddatblygwyr' (2000) sy'n gofyn am safonau mannau agored sy'n cyfateb i 9.16 m$^2$ yr annedd. Lleiafswm darpariaeth rhandiroedd Torfaen yw 25 rhandir safonol (250 metr sgwâr) i bob 1,000 o aelwydydd, h.y. 7.4m$^2$ o ofod rhandiroedd gros i bob annedd, a allai fod ar ffurf mannau tyfu cymunedol neu dyfu ar fframiau lle bo hynny'n briodol.

5.15 Bydd y gofynion yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio dull cynhyrchu poblogaeth bras yn seiliedig ar feddiannaeth cyfartalog o 2.3 person i bob aelod, ynghyd ag asesiad o'r ddarpariaeth bresennol yn yr ardal. Felly, cyfrifir y gofynion ar gyfer mannau awyr agored ffurfiol ac anffurfiol fesul annedd yn Nhorfaen fel a ganlyn:

**Cyfanswm y ddarpariaeth: 55.2 m$^2$ i bob annedd**

**Caiff ei rannu ymhellach fel a ganlyn:**

**Chwaraeon Awyr Agored (Darpariaeth i Oedolion) 36.8 m$^2$ / annedd**
**(a dylai 26.3 m$^2$ ohono fod ar gyfer chwaraeon maes)**

**Ardal Chwarae i Blant 18.4 m$^2$ i bob annedd**
**(a dylai 5.8 m$^2$ ohono fod ag offer / dynodiad fel man chwarae i blant a 12.6 m$^2$ ohono yn fan chwarae hamddenol / anffurfiol i blant)**

**Tabl 4: Costau Cyfalaf / Cynnal a Chadw ar gyfer y Ddarpariaeth Hamdden a Mannau Agored (Chwefror 2023)**

| Teipoleg | Cost fesul annedd | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfalaf | Cynnal a Chadw | Cyfanswm |
| Man Agored Cyhoeddus | £247 | £177 | **£424** |
| Ardal Leol ar gyfer Chwarae (LAP) | £1,410 | £1,728 | **£3,138** |
| Ardal Leol â Chyfarpar ar gyfer Chwarae (LEAP) | £364 | £305 | **£669** |
| Ardal Leol ar gyfer Chwarae (LAP) / Ardal Leol â Chyfarpar ar gyfer Chwarae (LEAP) | £366 | £315 | **£681** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ardal Leol â Chyfarpar ar gyfer Chwarae (LEAP) / Ardal yn y Gymdogaeth ar gyfer Chwarae (NEAP) | £103 | £106 | **£209** |
| Cae Pêl-droed | £1,486 | £1,202 | **£2,688** |
| Man Chwarae Amlddefnydd (MUGA) | £935 | £1,164 | **£2,099** |

5.16 Lle bo cyfleusterau'n bodoli'n barod ac maent yn is na'r safon sy'n dderbyniol, bydd y Cyngor yn ystyried Taliad Mannau Agored a Hamdden er mwyn lliniaru effaith y datblygiad trwy uwchraddio'r cyfleusterau sydd yno'n barod, yn hytrach na darparu cyfleusterau ychwanegol ar y safle.

## 6. Gwybodaeth Ychwanegol

6.1 Mae'r wybodaeth ychwanegol yn y Nodyn Canllaw i gefnogi'r broses o Asesu Hyfywedd Ariannol yn cynnwys:

- Cyfuniadau o Fathau o Dai a Dwysedd Safle Net Diofyn
- Cymhareb Arwynebedd Safle Gros i Net
- Meintiau Diofyn Anheddau Tai Fforddiadwy a Thai'r Farchnad
- Costau Eraill Datblygiad Preswyl i'w defnyddio yn y Model Hyfywedd Datblygiad
- Canolrif Costau Adeiladu Sylfaenol Median BCIS (£Gross/$m^2$) (Chwarter 2 2023)
- Costau Eraill Datblygiad Masnachol i'w defnyddio yn y Model Hyfywedd Datblygiad

## Atodiad 1: Trosolwg o'r Broses ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol

**Galwad am Safleoedd Ymgeisiol (8 wythnos)**

**Cyhoeddi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (safleoedd a gyflwynwyd a map o leoliad safleoedd)**

**Cam 1: Trosolwg Lefel Uchel o Gynaliadwyedd, Cyfyngiadau a Chyflawnadwyedd (pob Safle Ymgeisiol a gyflwynwyd)**

**Gwrthod Safleoedd Anaddas**

**Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr 'Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Drafft a'r Gofrestr Ddrafft' (Cam 1) law yn llaw ag ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLlN, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig Cychwynnol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (o leiaf 6 wythnos)**

**Ail Alwad am Safleoedd Ymgeisiol a Galwad am Dystiolaeth Ategol Ychwanegol ar gyfer y safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yn flaenorol sy'n gydnaws â'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLlN (6 wythnos)**

**Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cychwynnol ar Safleoedd Ymgeisiol yn rhoi sylw i ymatebion a gafwyd**

**(Adroddir gerbron y Cyngor)**

**Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cychwynnol, a chynnwys Safleoedd Newydd a Thystiolaeth Ychwanegol yn yr Asesiad Safleoedd Ymgeisiol a'r Gofrestr**

**Adolygu unrhyw Safleoedd Ymgeisiol newydd a Thystiolaeth Ychwanegol**

**Diweddaru'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (rhestr o'r safleoedd gyda mapiau)**

**Gwrthod Safleoedd Anaddas**

**Cyhoeddi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol wedi'i Diweddaru**

**Cam 2A: Asesiad Cynllunio Cynhwysfawr**
**(pob Safle sydd ar ôl yn dilyn Cam 1)**

**Gwrthod Safleoedd Anaddas**

**Cam 2B: Asesu Safleoedd Ymgeisiol yn erbyn Themâu ac Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (AECOM) (pob safle sydd ar ôl yn dilyn Cam 2A)**

**Cam 2C: (Ymchwiliadau Pellach i Safleoedd ac Ymgynghori Allanol Pellach) a 2D: (Gwerthusiad Hyfywedd Ariannol Manwl)**

**Cam 3: Asesu yn erbyn y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLlN (pob safle sydd ar ôl yn dilyn Cam 2)**

**Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol a'r Gofrestr law yn llaw ag ymgynghoriad ar ddogfennau'r CDLlN wedi'i Adneuo, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (o leiaf 6 wythnos)**

**Cael ymatebion i'r ymgynghoriad, rhoi sylw iddynt a'u cynnwys yn yr Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Terfynol a'r Gofrestr, i'w cyflwyno er mwyn i'r Cyhoedd eu Harchwilio**